**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Residential Outdoor Education (Wales) Bill**

**ROE 04**

**Ymateb gan: Mudiad Meithrin**
**Response from: Mudiad Meithrin**

---

Diolch am y cyfle i gyflwyno rhai sylwadau ar y Bil Addysg Awyr agored arfaethedig.

Yn ddibynnol ar ei gyfansoddiad a'i gynnwys, mae'n bosibl y byddai'r Bil yma yn adeiladu'n berffaith ar y gwaith rhagorol mae'n lleoliadau ni (Cylchoedd Meithrin a meithrinfeydd dydd) yn gwneud wrth sicrhau mynediad cyson at y tu allan i blant bach ddysgu trwy chwarae yn Gymraeg. Mae hynny yn elfen greiddiol o bedagogeg Dysgu Sylfaen y Cwricwlwm ac yn hybu llesiant a ffyniant plant bach yn gyffredinol.

Gwyddom o sawl ffynhonnell o dystiolaeth fod dysgu yn yr awyr agored yn meddu ar fuddiannau lu i blant bach.

Yn ffodus, mae Mudiad Meithrin bellach wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ariannu myfyrwyr ar gynllun peilot o gymhwyster newydd rydym wedi'i addasu i'r Gymraeg sef Bod y Tu Allan -Tystysgrif Lefel 3 (gyda'r fersiwn gwreiddiol o'r cymhwyster wedi'i baratoi gan yr Athro Jan White).

Mae 10 ymarferydd ar y cwrs, a byddant wedi cymhwyso erbyn diwedd 2024. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru sydd wedi'n hariannu i fedru cymryd 6 asesydd trwy'r cymhwyster i fod yn aseswyr ar y cwrs lefel 3 yma, ac i dalu am gyfieithu'r cwrs. I gefnogi ymarferwyr ymhellach, mae gan y Mudiad hefyd nifer o adnoddau dysgu a datblygu drwy ei adain hyfforddiant Academi sydd yn rhoi sylw a phwyslais ar fod y tu allan. Yn ogystal, bydd cyfres o gynadleddau a drefnir gan y Mudiad yn 2024 yn rhoi'r sylw ar fod y tu allan.

Mae'r cwrs ei hun yn cyd-fynd gyda'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn berffaith. Mae'r myfyrwyr yn dysgu am weithio gyda'r tymhorau, y tywydd, deunyddiau naturiol eu cynefinoedd a defnyddio'r tu allan ble bynnag y lleolir hwy.

I grynhoi felly, ein diddordeb ni fyddai sicrhau fod y Bil yn rhoi sylw teilwng i anghenion ein dysgwyr ieuengaf wrth ddysgu yn yr awyr agored gan hefyd fanteisio ar y cyfle i sicrhau fod cyfleon gwirioneddol i ddysgu trwy'r Gymraeg (a phlethu gyda'r Bil Addysg Gymraeg sydd ar y gweill).

O ran yr egwyddor fod plant cynradd a phobl ifanc yn cael y cyfle i dreulio o leiaf wythnos mewn canolfan breswyl a phrofi bywyd ac addysg yn yr awyr agored, mae'n anodd anghytuno gyda'r awgrym gan fod buddiannau lu i hynny.

Mae tystiolaeth fod rhai plant a phobl ifanc o gefndiroedd penodol yn colli allan ar brofiadau o'r fath.

Byddem felly'n cytuno gyda'r weledigaeth honno (er yn pryderu am effaith ariannu hyn ar gyllidebau ehangach o ran addysg blynyddoedd cynnar yn yr hinsawdd ariannol presennol).

Yr eiddoch yn gywir,

Dr Gwenllian Lansdown Davies

Prif Weithredwr